Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Cultural Trust

awen Masnachu Trading

# HYSBYSIAD PREIFATRWYDD

**Mae Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen ac Awen Trading Ltd (Grŵp Awen) yn cymryd eich preifatrwydd o ddifrif. Rydym wedi ymrwymo i gydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data bob amser wrth brosesu eich gwybodaeth bersonol. Ni yw rheolwr data unrhyw ddata personol rydych chi'n ei ddarparu i ni.**

Nod yr hysbysiad preifatrwydd hwn yw amlinellu sut mae Grŵp Awen yn casglu, yn prosesu ac yn cadw'r data personol y byddwch efallai yn ei roi i ni pan fyddwch yn defnyddio ein gwefannau, pan fyddwch yn cofrestru ar gyfer ein negeseuon e-bost, neu pan fyddwch yn prynu cynnyrch neu'n defnyddio gwasanaeth.

Nid yw ein gwefannau wedi'u bwriadu ar gyfer plant o dan 16 oed, ac nid ydym yn casglu data yn ymwneud â phlant yn fwriadol, ac eithrio Theatr Ieuenctid Pen-y-bont ar Ogwr ac aelodau ifanc Llyfrgelloedd Awen, sy'n cael ei roi gan rieni/gwarcheidwaid aelodau.

Yr wybodaeth gyfreithiol lawn yw:

Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen.
Elusen gofrestredig rhif 1166908 yng Nghymru.

Mae Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen yn gwmni sydd wedi'i gofrestru yng Nghymru yn Nhŷ Bryngarw, Parc Gwledig Bryngarw, Brynmenyn, CF32 8UU. Rhif Cofrestru Cwmni 9610991.

Mae Awen Trading Ltd yn gwmni sydd wedi'i gofrestru yng Nghymru yn Nhŷ Bryngarw, Parc Gwledig Bryngarw, Brynmenyn, CF32 8UU. Rhif Cofrestru Cwmni 09619638.

At ddibenion deddfwriaeth Diogelu Data, y Rheolwr Data yw Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen (rhif cofrestru ICO ZA186896).

# PRIVACY NOTICE

**Awen Cultural Trust and Awen Trading Ltd (Awen Group) take your privacy very seriously. We are committed to complying with data protection legislation at all times when processing your personal information. We are the data controller of any personal data that you provide to us.**

This privacy notice aims to outline how the Awen Group collects, processes and retains the personal data you may provide us when you use of our websites, when you sign up to our emails, or when you buy a product or use a service.

Our websites are not intended for children under 16 years, and we do not knowingly collect data relating to children, except for Bridgend Youth Theatre and young Awen Libraries' members, which is supplied by the parents/guardians of members.

The full legal information is:

Awen Cultural Trust.
Registered charity no. 1166908 in Wales.

Awen Cultural Trust is a company that is registered in Wales at Tŷ Bryngarw, Bryngarw Country Park, Brynmenyn, CF32 8UU. Company Registration Number 9610991.

Awen Trading Ltd is a company that is registered in Wales at Tŷ Bryngarw, Bryngarw Country Park, Brynmenyn, CF32 8UU. Company registration number 09619638.

For purposes Data Protection legislation, the Data Manager is Awen Cultural Trust (ICO registration number ZA186896).

Bydd yr holl ddata personol a gesglir yn unol â defnydd y datganiad preifatrwydd hwn yn unig.

Gall Awen newid y polisi hwn o bryd i'w gilydd drwy ddiweddaru'r dudalen hon a dangosir rhestr o newidiadau mewn dogfen ar wahân, y gallwch ddod o hyd iddi yma.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr hysbysiad hwn, anfonwch neges e-bost i: **support@awen-wales.com**

All personal data collected will only be in accordance with this privacy statement use.

Awen may change this policy from time to time by updating this page and a list of changes is shown in a separate document, which you can access here.

If you have any queries regarding this notice, please email: **support@awen-wales.com**

## Rheolwr Data a Manylion Cyswllt

**Awen (y cyfeirir ato fel "ni" neu "ein" yn yr hysbysiad hwn) yw rheolwyr eich data personol.**

Mae gennych hawl i wneud cwyn ar unrhyw adeg i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO), awdurdod goruchwyliol y DU ar gyfer materion diogelu data (**www.ico.org.uk**).

Fodd bynnag, byddem yn hoffi'r cyfle i ymdrin â'ch pryderon yn y lle cyntaf, cyn i chi gysylltu â'r ICO.

## Data Controller and Contact Details

**Awen (referred to us "we", "us" or "our" in this notice) is/are the controllers of your personal data.**

You have the right to make a complaint at any time to the Information Commissioner's Office (ICO), the UK supervisory authority for data protection issues (**www.ico.org.uk**).

We would, however, like the opportunity to deal with your concerns in the first instance, before you approach the ICO.

## Cysylltiadau Trydydd Parti

**Gall ein gwefannau gynnwys dolenni i wefannau trydydd parti, ategion a chymwysiadau.**

Drwy glicio ar y dolenni hyn, efallai y byddwch yn caniatáu i drydydd partïon gasglu neu rannu data amdanoch chi. Nid ydym yn rheoli'r gwefannau trydydd parti hyn ac rydym yn eich annog i ddarllen hysbysiad preifatrwydd pob gwefan rydych chi'n ymweld â hi.

## Third Party Links

**Our websites may include links to third-party websites, plug-ins and applications.**

By clicking on these links, you may be allowing third parties to collect or share data about you. We do not control these third-party websites and we encourage you to read the privacy notice of every website you visit.

## Y data rydym yn ei gasglu

**Rydym yn casglu gwybodaeth a ddarperir gennych ar lafar, yn ddigidol ac yn ysgrifenedig pan fyddwch chi'n gwneud y canlynol:**

## The Data We Collect

**We collect information that is provided by you verbally, digitally and in written form when you:**

(a) prynu tocynnau neu archebu ar gyfer ein digwyddiadau neu weithdai; (b) llenwi ffurflenni ar ein gwefan neu'n bersonol; (c) gwneud cyfraniadau; (d) cofrestru ar gyfer cylchlythyr; (e) gwneud cais am swydd gyda ni; (f) gweithio i ni; (g) gwirfoddoli gyda ni; (h) holi am briodas, trefnu achlysur corfforaethol neu arbennig; (i) aros gyda ni (j) ymuno â'n gwasanaeth llyfrgell; (k) mynychu ein gwasanaeth hyfforddeion (l) gweithio i ni e.e. gweithwyr llawrydd (m) rhyngweithio â ni trwy'r cyfryngau cymdeithasol, e-bost, post, neges destun neu ffôn, neu'n defnyddio un o'n cwcis.

**Efallai y byddwn yn casglu, defnyddio, cadw a throsglwyddo'r wybodaeth bersonol ganlynol amdanoch:**

- Data hunaniaeth e.e. enw cyntaf, enw olaf, teitl;
- Data cyswllt e.e. cyfeiriad bilio, cyfeiriad preswyl, rhifau ffôn, cyfeiriad e-bost;
- Data ariannol e.e. manylion cardiau talu;
- Data trafodiadau e.e. manylion tocynnau, cynhyrchion a gwasanaethau rydych chi wedi'u prynu neu eu benthyg gennym ni;
- Data technegol e.e. cyfeiriad IP, math o borwr, gosodiad lleoliad, dewisiadau cwcis (gweler isod);
- Data proffil e.e. enw defnyddiwr a chyfrinair, hanes prynu neu fenthyg, eich diddordebau, ymatebion i'r arolwg (oni bai eu bod yn ddienw);
- Data defnydd e.e. sut rydych chi'n defnyddio ac yn rhyngweithio â'n gwefannau, cynhyrchion a gwasanaethau a'ch presenoldeb yn ein digwyddiadau;
- Data marchnata a chyfathrebu e.e. os a sut hoffech dderbyn deunydd marchnata gennym ni a'n trydydd partïon, a'ch dull cyfathrebu; a dewisiadau;
- Delweddau CCTV;
- Gwybodaeth feddygol ac iechyd;
- Data cydraddoldeb.

(a) buy tickets or book for our events or workshops; (b) complete forms on our website or in person; (c) make donations; (d) register for a newsletter; (e) apply for a job with us; (f) work for us; (g) volunteer with us; (h) enquire about a wedding, corporate or special occasion booking; (i) stay with us; (j) join our library service; (k) attend our trainee service; (l) work for us e.g. freelancers; (m) interact with us through social media, email, post, text or phone, or use one of our cookies.

**We may collect, use, retain and transfer the following personal information about you:**

- Identity data e.g. first name, last name, title;
- Contact data e.g. billing address, residential address, telephone numbers, email address;
- Financial data e.g. payment card details;
- Transaction data e.g. details of tickets, products and services you have purchased or borrowed from us;
- Technical data e.g. IP address, browser type, location setting, cookie preferences (see below);
- Profile data e.g. username and password, purchase or borrowing history, your interests, survey responses (unless anonymised);
- Usage data e.g. how you use and interact with our websites, products and services and your attendance at our events;
- Marketing and communications data e.g. if and how you prefer to receive marketing from us and our third parties, and your communication; and preferences;
- CCTV images;
- Medical and health information;
- Equalities data.

Rydym yn casglu, yn defnyddio ac yn rhannu data cyfanredol megis data ystadegol neu ddemograffig at unrhyw ddiben. Gall data cyfanredol ddeillio o'ch data personol ond nid yw'n cael ei ystyried yn ddata personol mewn cyfraith gan nad yw'r data hwn yn datgelu eich hunaniaeth yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol.

Rydym hefyd yn casglu categorïau arbennig o ddata personol oddi wrth unigolion sy'n gwneud cais i weithio yn Awen, gan gynnwys gwybodaeth am ethnigrwydd ac anabledd (os nad yw'r ymgeisydd yn darparu'r wybodaeth). Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth hon wrth fonitro ystadegau recriwtio yn unig.

Os ydym eisiau datgelu gwybodaeth am yr ymgeisydd i drydydd parti, er enghraifft i gael geirda neu i gael datgeliad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, ni fyddwn yn gwneud hynny heb roi rhybudd ymlaen llaw i chi, oni bai bod y datgeliad yn ofynnol yn ôl y gyfraith.

## Pam y mae angen yr wybodaeth hon arnom

**Byddwn dim ond yn defnyddio eich data personol pan ganiateir i ni wneud hynny yn gyfreithiol, er enghraifft:**

- Pan fydd angen i ni ddarparu gwasanaeth cytundebol i chi e.e. prynu tocynnau neu roi llyfrau ar fenthyg;
- Pan fo'n angenrheidiol ar gyfer ein buddiannau dilys ac nad yw eich hawliau sylfaenol yn drech na'r buddiannau hyn;
- Pan fydd angen i ni gydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol neu reoleiddiol.

Os na fyddwch yn darparu'r data pan ofynnir amdano, efallai na fyddwn yn gallu cyflawni'r contract sydd gennym, neu yr ydym yn ceisio ymrwymo iddo gyda chi, er enghraifft, lle mae angen i chi archebu tocynnau ar gyfer digwyddiad. Yn yr achos hwn, efallai y bydd yn rhaid i ni ganslo cynnyrch neu wasanaeth yr ydym yn ei ddarparu i chi.

We collect, use and share aggregated data such as statistical or demographic data for any purpose. Aggregated data may be derived from your personal data but is not considered personal data in law as this data does not directly or indirectly reveal your identity.

We also collect special categories of personal data from individuals that apply to work at Awen, including information about ethnicity and disability (if the applicant ceases to provide information). We will only use this information in monitoring recruitment statistics.

If we want to disclose the candidate's information to a third party, for example to obtain a reference or to have a disclosure of the Disclosure and Exclusion Service, we will not do so without giving you advance notice, unless the disclosure is required by law.

## Why We Need This Information

**We will only use your personal data when we are legally allowed to, for instance:**

- When we need to deliver a contractual service to you e.g. ticket purchase or book loans;
- When it is necessary for our legitimate interests and your fundamental rights do not override these interests; and
- When we need to comply with a legal or regulatory obligation.

If you fail to provide the data when requested, we may not be able to perform the contract we have, or are trying to enter in with you, for example, where you need to place an order to purchase event tickets. In this instance, we may have to cancel a product or service you have with us.

Efallai y byddwn yn prosesu eich data personol ar gyfer mwy nag un sail gyfreithiol yn dibynnu ar y diben penodol yr ydym yn defnyddio eich data ar ei gyfer. Anfonwch neges e-bost i **support@awen-wales.com** os hoffech gael manylion am y sail gyfreithiol benodol yr ydym yn ei defnyddio i brosesu eich data personol.

## Sut rydym yn casglu eich data personol

**Rydym yn defnyddio gwahanol ddulliau i gasglu data oddi wrthych ac amdanoch gan gynnwys:**

**RHYNGWEITHIADAU UNIONGYRCHOL**

Gallwch roi eich data hunaniaeth, cyswllt ac ariannol i ni drwy ohebu â ni'n bersonol, dros y ffôn, drwy e-bost neu ar-lein drwy ein gwefannau. Mae hyn yn cynnwys pan fyddwch yn gwneud y canlynol:

- Cadw neu adnewyddu llyfr neu eitem arall o'r llyfrgell;
- Creu cyfrif ar ein gwefannau;
- Tanysgrifio i'n cylchlythyrau;
- Gofyn i ddeunydd marchnata gael ei anfon atoch;
- Cwblhau arolwg neu roi adborth;
- Gwneud cais am swydd yn Awen;
- Gwirfoddoli gyda ni;
- Cael eich cyfeirio at wasanaethau hyfforddeion;
- Adrodd am ddamweiniau a digwyddiadau.

**TECHNOLEGAU NEU RYNGWEITHIADAU AWTOMATIG**

Pan fyddwch yn rhyngweithio â'n gwefannau, efallai y byddwn yn casglu data technegol am eich offer, eich ymddygiad pori a'ch gweithredoedd yn awtomatig. Rydym yn casglu'r data personol hwn gan ddefnyddio cwcis a thechnolegau tracio tebyg eraill fel picseli. Rydym yn defnyddio'r wybodaeth hon i weinyddu ein gwefannau, tracio eich symudiadau o amgylch ein gwefannau, darparu

We may process your personal data for more than one lawful ground depending on the specific purpose for which we are using your data. Please email us at **support@awen-wales.com** if you would like details about the specific legal ground we are using to process your personal data.

## How We Collect Your Personal Data

**We use different methods to collect data from and about you including:**

**DIRECT INTERACTIONS**

You may give us your identity, contact and financial data by corresponding with us in person, by phone, by email or online via our websites. This includes when you:

- Order tickets;
- Reserve or renew a book or other library item;
- Create an account on our websites;
- Subscribe to our newsletters;
- Request for marketing to be sent to you;
- Complete a survey or provide feedback;
- Apply for a job at Awen; and
- Volunteer with us;
- Referred to trainee services;
- Accident and incident reporting.

**AUTOMATED TECHNOLOGIES OR INTERACTIONS**

When you interact with our websites, we may automatically collect technical data about your equipment, browsing behaviour and actions. We collect this personal data using cookies and other similar tracking technologies such as pixels. We use this information to administer our websites, track your movements around our websites, provide targeted advertisements and gather demographic

hysbysebion wedi'u targedu a chasglu gwybodaeth ddemograffig a daearyddol amdanoch chi.

Efallai y byddwn yn derbyn data technegol amdanoch os byddwch yn ymweld â gwefannau eraill sy'n defnyddio ein cwcis ni neu dechnolegau tracio, fel system reoli'r llyfrgell.

Enghreifftiau o'r cwcis rydyn ni'n eu defnyddio:

- Cwcis dewisol – i gofio eich dewisiadau a'ch gosodiadau er mwyn darparu gwasanaeth gwell i chi;
- Cwcis diogelwch – at ddibenion diogelwch;
- Cwcis hysbysebu – i roi hysbysebion i chi a allai fod yn berthnasol i chi;
- Cwcis ymarferoldeb – i ddarparu gwell ymarferoldeb a phersonoli;
- Cwcis targedu – i greu proffil o'ch diddordebau a dangos hysbysebion perthnasol i chi ar wefannau eraill;
- Cwcis cyfryngau cymdeithasol – i'ch galluogi i rannu ein cynnwys gyda'ch ffrindiau a'ch rhwydweithiau.

Gallwch osod eich porwr i wrthod rhai neu bob un o gwcis y porwr, neu i'ch rhybuddio pan fydd gwefannau'n gosod neu'n cyrchu cwcis. Os ydych chi'n analluogi neu'n gwrthod cwcis, nodwch y gallai rhai rhannau o'n gwefannau ddod yn anhygyrch neu beidio â gweithredu'n iawn.

Enghreifftiau o'r picseli rydyn ni'n eu defnyddio:

- Pan fyddwn yn anfon cylchlythyrau e-bost at ein tanysgrifwyr, mae'r offer rydyn ni'n eu defnyddio fel Mailchimp a Dotdigital yn ychwanegu 'picsel' yn awtomatig er mwyn rhoi data i ni am 'gyfraddau agor' a 'chyfraddau clicio';
- Defnyddir picseli Meta i sicrhau ein bod yn dangos ein hysbysebion Facebook, Instagram a WhatsApp i'r bobl gywir ac yn mesur canlyniadau'r hysbysebion hyn trwy ddeall beth sy'n digwydd pan fydd pobl yn eu gweld;

and geographic information about you.

We may receive technical data about you if you visit other websites employing our cookies or tracking technologies, such as the library management system.

Examples of the cookies we use:

- Preference cookies – to remember your preferences and settings in order to provide you with an enhanced service;
- Security cookies – for security purposes;
- Advertising cookies – to provide you with advertisements that may be relevant to you;
- Functional cookies – to provide enhanced functionality and personalisation;
- Targeting cookies – to build a profile of your interests and show you relevant adverts on other sites;
- Social media cookies – to enable you to share our content with your friends and networks.

You can set your browser to refuse some or all browser cookies, or to alert you when websites set or access cookies. If you disable or refuse cookies, please note that some parts of our websites may become inaccessible or not function properly.

Examples of the pixels we use:

- When we send email newsletters to our subscribers, the tools we use like Mailchimp and Dotdigital automatically add a 'pixel' in order to provide us with data about 'open rates' and 'click rates';
- Meta pixels are used to ensure we are showing our Facebook, Instagram and WhatsApp ads to the right people and measure the results of these ads by understand what happens when people see them;

- Defnyddir picseli trosi i dracio pryniannau gwefan, cofrestriadau cylchlythyr, cliciau botwm, llenwi ffurflen, lawrlwytho dogfennau, galwadau a negeseuon WhatsApp a anfonir i rifau ffôn ar ein gwefannau, negeseuon e-bost a anfonir i gyfeiriadau e-bost ar ein gwefannau.

Efallai y byddwn yn derbyn data personol amdanoch gan wahanol drydydd partïon, llwyfannau cyfryngau cymdeithasol a phartneriaid marchnata ar y cyd, gan gynnwys:

- Data hunaniaeth gan Facebook, asiantau tocynnau eraill;
- Data cyswllt gan Facebook, asiantau tocynnau eraill;
- Data proffil gan Facebook, QuestionPro;
- Data trafodiadau gan Spektrix, SirsiDynix, crowdEngage.

## Sut rydym yn defnyddio eich data personol

**Byddwn yn defnyddio data personol i gyflawni'r canlynol:**

- I'n galluogi ni i ddarparu'r gwasanaethau a'r wybodaeth yr ydych wedi gofyn amdanynt gennym ni, e.e. tocynnau, derbynebau, anfonebau, gwasanaethau hyfforddeion, digwyddiadau, gweithgareddau ac ati;
- Er mwyn galluogi trydydd partïon i brosesu trafodiadau cardiau credyd yn ddiogel, rydym yn anfon eich gwybodaeth bilio i'r un trydydd partïon i brosesu eich archebion a'ch taliadau cardiau credyd;
- I anfon negeseuon nad ydynt yn rhai marchnata atoch am ein gwasanaethau, gan gynnwys newidiadau dros dro neu barhaol i'n gwasanaethau, a newidiadau i'r polisi hwn;
- I gyflawni'r contract yr ydym ar fin ymrwymo iddo neu wedi ymrwymo iddo, a gorfodi cydymffurfiaeth â'n telerau ac amodau;

- Conversion pixels are used to track website purchases, newsletter sign-ups, button clicks, form completions, documents downloads, calls and WhatsApp messages sent to phone numbers on our websites, emails sent to email addresses on our websites.

We may receive personal data about you from various third parties, social media platforms and joint marketing partners, including:

- Identity data from Facebook, other ticket agents;
- Contact data from Facebook, other ticket agents;
- Profile data from Facebook, QuestionPro;
- Transaction data from Spektrix, SirsiDynix, crowdEngage.

## How We Use Your Personal Data

**We will use personal data:**

- To allow us to provide the services and information you have requested from us e.g. tickets, receipts, invoices, trainee services, events, activities etc.;
- To enable third parties to process credit card transactions securely, we send your billing information to the same third parties to process your orders and credit card payments;
- To send you non-marketing messages about our services, including temporary or permanent changes to our services, and changes to this policy;
- To perform the contract we are about to enter into or have entered into with you, and enforce compliance with our terms and conditions;
- To help us understand how our websites and services are used;
- To enable us to send you communications, either by email or post, that may be of interest to you, in line with your marketing preferences;

- I'n helpu ni i ddeall sut mae ein gwefan a'n gwasanaethau'n cael eu defnyddio;
- I'n galluogi ni i anfon gohebiaeth atoch, naill ai drwy e-bost neu'r post, a allai fod o ddiddordeb i chi, yn unol â'ch dewisiadau marchnata;
- Pan fo'n angenrheidiol er ein Buddiannau Dilys (neu fuddiannau trydydd parti) ac nad yw eich buddiannau a'ch hawliau sylfaenol yn drech na'r buddiannau hynny;
- Pan fo angen i ni gydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol, broffesiynol, diogelwch neu reoleiddiol;
- Pan fo angen i ni amddiffyn ein hunain rhag atebolrwydd cyfreithiol a/neu ddiogelu ac amddiffyn ein hawliau neu eiddo;
- Mae delweddau CCTV yn cael eu cadw ar ein camerâu i wella diogelwch a helpu i atal a chanfod trosedd ac anhrefn. Oherwydd natur gwasanaethau Awen efallai y bydd rheswm hefyd i ddefnyddio deunydd CCTV at ddibenion eraill megis diogelu oedolion a phlant agored i niwed neu weithgaredd troseddol posibl;
- Gofynnir am wybodaeth bersonol ymgeisydd er mwyn monitro ystadegau recriwtio ac eithrio pan fydd ymgeisydd yn llwyddiannus. Pan fydd ymgeisydd yn dod yn gyflogai, mae'r wybodaeth a ddarperir ganddo yn rhan o'i ffeil bersonol. Mae hysbysiad preifatrwydd ar wahân ar waith ar gyfer prosesu data cyflogeion;
- I reoli eich lleoliad fel hyfforddai a darparu'r gwasanaethau a'r cymorth angenrheidiol.

Byddwn dim ond yn defnyddio'ch gwybodaeth bersonol at y dibenion y gwnaethom ei chasglu ar eu cyfer, oni bai ein bod yn rhesymol o'r farn bod angen i ni ei defnyddio am reswm arall ac mae'r rheswm hwnnw'n gydnaws â'r diben gwreiddiol. Os bydd angen i ni ddefnyddio eich gwybodaeth bersonol at ddiben nad yw'n gysylltiedig, byddwn yn esbonio'r sail gyfreithiol sy'n ein galluogi i wneud hynny.

- Where it is necessary for our Legitimate Interests (or those of a third party) and your interests and fundamental rights do not override those interests;
- Where we need to comply with a legal, professional, security or regulatory obligation;
- Where we need to protect against legal liability and/or protect and defend our rights or property;
- CCTV images are held on our cameras to improve safety and help prevent and detect crime and disorder. Due to the nature of Awen services there may also be a reason to use material CCTV for other purposes such as safeguarding adults and vulnerable children or potential criminal activity;
- Candidate/personal Information is requested regarding candidates to monitor recruitment statistics except where a candidate is successful. When a candidate becomes an employee, the Information provided by them forms part of their personal file. A separate privacy notice is in place for the processing of employee data;
- To manage your placement as a trainee and provide the necessary services and support.

We will only use your personal information for the purposes for which we collected it, unless we reasonably consider that we need to use it for another reason and that reason is compatible with the original purpose. If we need to use your personal information for an unrelated purpose, we will explain the legal basis which allows us to do so.

## Marchnata

**Eich dewis chi yw p'un a ydych chi'n derbyn gwybodaeth farchnata gennym ni neu beidio a gallwch optio allan ar unrhyw adeg.**

Eich dewis chi yw p'un a ydych chi'n derbyn gwybodaeth farchnata gennym ni neu beidio a gallwch optio allan ar unrhyw adeg. Byddwn yn anfon yr wybodaeth hon atoch drwy e-bost, post neu neges destun. Efallai y byddwn hefyd yn anfon neges e-bost uniongyrchol atoch y teimlwn y gallai fod o ddiddordeb i chi. Ni fyddwn yn cysylltu â chi at ddibenion marchnata oni bai eich bod wedi rhoi eich caniatâd i ni. Os nad ydych yn dymuno clywed oddi wrthym mwyach, anfonwch neges e-bost i **marketing@awen-wales.com**

Mae ein holl farchnata e-bost yn rhoi'r dewis i chi gael eich eithrio rhag derbyn gwybodaeth bellach gennym ni. Fel y nodwyd uchod, byddwch yn dal i dderbyn negeseuon e-bost gennym os oes angen i ni ddarparu gwasanaeth cytundebol i chi e.e. prynu tocynnau neu fenthyciad llyfr, neu os ydych wedi cyflwyno ffurflen ymholiad ar-lein.

## Marketing

**It is your choice whether you receive marketing information from us and you can opt out at any time.**

We will send you this information by email, post or text message. We may also send you direct mail that we feel may be of interest to you. We will not contact you for marketing purposes unless you have given us your consent. If you no longer wish to hear from us, please send an email to **marketing@awen-wales.com**

All of our email marketing gives you the option to opt out of receiving further information from us. As noted above, you will still receive emails from us if needed to deliver a contractual service to you e.g. ticket purchase or book loan, or if you have submitted an online enquiry form.

## Dadansoddeg

**Pan fyddwch yn ymweld â'n gwefan, rydym yn defnyddio gwasanaeth trydydd parti, Google Analytics, i gasglu gwybodaeth gofnodi safonol y rhyngrwyd a manylion am batrymau ymddygiad ymwelwyr.**

Rydym yn gwneud hyn i ddarganfod pethau fel nifer yr ymweliadau i wahanol rannau o'r safleoedd. Mae'r wybodaeth hon yn cael ei phrosesu mewn ffordd nad yw'n adnabod unrhyw un yn uniongyrchol. Nid ydym ni'n gwneud unrhyw ymgais i ddarganfod pwy yw'r rhai sy'n ymweld â'n gwefannau ac nid ydym yn caniatáu i Google wneud hynny. Rydym yn defnyddio'r wybodaeth i adrodd ar nifer yr ymwelwyr, ac i wneud gwelliannau i'n gwasanaeth.

## Analytics

**When you visit our website, we use a third-party service, Google Analytics, to collect standard internet log information and details of visitor behaviour patterns.**

We do this to find out such things as the number of visitors to the various parts of the sites. This information is only processed in a way that does not directly identify anyone. We do not make, and do not allow Google to make, any attempt to find out the identities of those visiting our websites. We use the information to report on visitor numbers, and to make improvements to our service.

Cesglir yr wybodaeth hon dim ond os yw ymwelwyr yn optio i mewn. Mae'r wybodaeth a gesglir yn cael ei dosbarthu fel data personol oherwydd bod Google yn neilltuo dynodydd unigryw i bob ymwelydd. Nid ydym ni'n gwneud unrhyw ymgais i ddarganfod pwy yw'r rhai sy'n ymweld â'n gwefannau ac nid ydym yn caniatáu i Google wneud hynny.

## Ailfarchnata

**Rydym yn ailfarchnata gwasanaethau i hysbysebu ar wefannau trydydd parti ar ôl i chi ymweld â'n gwefannau ni. Rydyn ni, a'n cyflenwyr trydydd parti, yn defnyddio cwcis i hysbysu, optimeiddio a gweithredu hysbysebion yn seiliedig ar eich ymweliadau blaenorol â'n gwefannau.**

Mae gwasanaeth ailfarchnata Google Ads yn cael ei ddarparu gan Google Inc. Gallwch optio allan o Google Analytics ar gyfer Hysbysebu Arddangos ac addasu hysbysebion Google Display Network trwy ymweld â thudalen Google Ads Settings: **http://www.google.com/settings/ads**.
Mae Google hefyd yn argymell gosod 'Google Analytics Opt-Out Browser Add-on' - **https://tools.google.com/dlpage/gaoptout** - ar gyfer eich porwr gwe. Mae Google Analytics Opt-Out Browser Add-on yn rhoi'r gallu i ymwelwyr atal eu data rhag cael ei gasglu a'i ddefnyddio gan Google Analytics. I gael rhagor o wybodaeth am arferion preifatrwydd Google, ewch i dudalen Google Privacy & Terms: **http://www.google.com/intl/en/policies/privacy/**

Mae gwasanaeth ail-farchnata Facebook yn cael ei ddarparu gan Meta. Gallwch ddysgu mwy am hysbysebu sy'n seiliedig ar ddiddordeb gan Facebook trwy ymweld â **https://www.facebook.com/help/164968693837950**

I optio allan o hysbysebion sy'n seiliedig ar ddiddordeb gan Facebook, dilynwch y cyfarwyddiadau hyn gan Facebook: **https://www.facebook.com/help/568137493302217**. I gael rhagor o wybodaeth am arferion preifatrwydd Facebook, ewch i dudalen polisi data Facebook: **https://www.facebook.com/privacy/explanation**

This information is collected only if visitors opt in. The information collected is classed as personal data because Google assigns a unique identifier to each visitor. We do not make, and do not allow Google to make, any attempt to find out the identities of those visiting our websites.

## Remarketing

**We remarket services to advertise on third party websites to you after you have visited our websites. We, and our third-party suppliers, use cookies to inform, optimise and serve ads based on your past visits to our websites.**

Google Ads remarketing service is provided by Google Inc. You can opt-out of Google Analytics for Display Advertising and customise the Google Display Network ads by visiting the Google Ads Settings page: **http://www.google.com/settings/ads**. Google also recommends installing the Google Analytics Opt-out Browser Add-on – **https://tools.google.com/dlpage/gaoptout** – for your web browser. Google Analytics Opt-out Browser Add-on provides visitors with the ability to prevent their data from being collected and used by Google Analytics.

For more information on the privacy practices of Google, please visit the Google Privacy & Terms web page: **http://www.google.com/intl/en/policies/privacy/**

Facebook's remarketing service is provided by Meta. You can learn more about interest-based advertising from Facebook by visiting **https://www.facebook.com/help/164968693837950**.

To opt-out from Facebook's interest-based ads follow these instructions from Facebook: **https://www.facebook.com/help/568137493302217**.

## Ffotograffiaeth

**Rydym wedi asesu bod ein 'sail gyfreithiol' ar gyfer ffotograffiaeth, fideograffeg a recordio sain yn ein digwyddiadau a'n lleoliadau cyhoeddus yn un o 'fuddiant dilys'.**

Gellir defnyddio cynnwys wedi'i recordio at ddibenion marchnata / hyrwyddo (digidol a thraddodiadol) a gwerthuso. Mae gennych hawl i optio allan o unrhyw ffotograffiaeth/fideograffeg/recordio sain ymlaen llaw; rhowch wybod i aelod o dîm Awen. Mae gennych hefyd yr hawl i wrthwynebu,
naill ai cyn neu unrhyw bryd ar ôl i'r ddelwedd gael ei recordio. Pan godir gwrthwynebiadau ar ôl y digwyddiad, dylech anfon cais, gan egluro beth yr ydych yn ei wrthwynebu, i **marketing@awen-wales.com** a fydd yn ystyried y cais ac, os yw'n briodol, yn tynnu'r ddelwedd/fideo/sain ymaith.

## Photography

**We have assessed that our 'lawful basis' for photography, videography and sound recording at our public events and venues is one of 'legitimate interest'.**

Recorded content may be used for marketing/promotional (digital and traditional) and evaluation purposes. You have the right to opt-out of any photography/videography/sound recording beforehand; please let a member of the Awen team know. You also have a right to object, either before or any time after the image is taken.

Where objections are raised afterwards, you should send a request, clarifying what you are objecting to, to **marketing@awen-wales.com** who will consider the request and, if appropriate, remove the image/video/sound.

## Rhannu eich gwybodaeth

**Bydd yr wybodaeth a roddwch i ni yn cael ei thrin yn gyfrinachol**

Efallai byddwn yn datgelu eich gwybodaeth i drydydd partïon eraill sy'n gweithredu ar ein rhan at y dibenion a nodir yn y polisi, at ddibenion a gymeradwywyd gennych chi, mewn cysylltiad â rheoli trefniant cytundebol neu yn ôl y gyfraith, gan gynnwys i gyflenwyr sy'n darparu ein gwasanaethau marchnata, ariannol, tocynnau, rheoli llyfrgelloedd (gan gynnwys Spektrix, SirsiDynix, Secure My Booking),  crowdEngage, Dotdigital, Mailchimp, Pipedrive, Catersoft a Little Hotelier), Partneriaid Llywodraeth Leol neu gyrff proffesiynol a meddalwedd sy'n gysylltiedig â rheoli eich cyflogaeth.

Mae gwybodaeth yn cael ei storio ar y gweinyddwyr a ddefnyddir gan drydydd partïon a ddewiswyd yn ofalus y gallent fod wedi'u lleoli y tu mewn neu'r tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd.

## Sharing your information

**The information you provide to us will be treated as confidential.**

We may disclose your information to other third parties who act for us for the purposes set out in the policy, for purposes approved by you, in relation to the management of a contractual arrangement or by law, including to suppliers who provide our marketing, financial, ticketing, library management services (including Spektrix, SirsiDynix, Secure My Booking, crowdEngage, Dotdigital, Mailchimp, Pipedrive, Catersoft and Little Hotelier), Local Government Partners or professional bodies and software related to managing your employment.

Information is stored on the servers used by carefully selected third parties they may be situated inside or outside the European Economic Area.

Rydym dim ond yn dewis partneriaid y gallwn ymddiried ynddynt. Byddwn dim ond yn trosglwyddo data personol os ydynt wedi llofnodi contract sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt wneud y canlynol:

- cydymffurfio â gofynion deddfwriaeth diogelu data;
- trin eich gwybodaeth mor ofalus ag y gwnawn ni;
- defnyddio'r wybodaeth at y dibenion y cafodd ei darparu ar eu cyfer yn unig;
- caniatáu i ni gynnal gwiriadau i sicrhau eu bod yn gwneud yr holl bethau hyn.

## Am ba hyd yr ydym yn cadw eich gwybodaeth

Rydym yn adolygu ein cyfnodau cadw data bob 2 flynedd a byddwn dim ond yn cadw eich data personol cyhyd ag sy'n angenrheidiol ar gyfer y gweithgaredd perthnasol, neu fel sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith (efallai y bydd gofyn cyfreithiol i ni ddal rhai mathau o wybodaeth), neu fel y nodir mewn unrhyw gontract perthnasol sydd gennym gyda chi.

## Your rights

Ar unrhyw adeg, mae gennych hawl i wneud y canlynol:

- Gofyn am fynediad at eich gwybodaeth bersonol (a elwir yn aml yn 'gais cyrchu gwrthrych data'). Mae hyn yn eich galluogi i dderbyn copi o'r wybodaeth bersonol sydd gennym amdanoch a gwirio ein bod yn ei phrosesu'n gyfreithlon;
- Gofyn i ni gywiro unrhyw wybodaeth anghyflawn neu anghywir sydd gennym amdanoch;
- Gofyn am ddileu eich gwybodaeth bersonol, pan nad oes rheswm da i ni barhau i'w brosesu;
- Gwrthwynebu i ni brosesu eich gwybodaeth bersonol pan ydym yn dibynnu ar sail gyfreithlon;

We only choose partners that we can trust. We will only transfer personal data if they have signed a contract that requires them to:

- comply with the requirements of data protection legislation;
- treat your information as carefully as we do;
- use the information for the purposes for which it was supplied only; and
- allow us to carry out checks to make sure they do all these things.

## How long we keep your information

We review our data retention periods every 2 years and will only hold your personal data for as long as is necessary for the relevant activity, or as required by law (we may be legally required to hold some types of information), or as set out in any relevant contract we have with you.

## Your rights

At any time, you have the right to:

- Request access to your personal information (often called a 'data subject access request'). This enables you to receive a copy of the personal information we hold about you and check we are processing it lawfully;
- Request we correct any incomplete or inaccurate information we hold about you;
- Request the removal of your personal information, where there is no good reason for us to continue processing it;
- Object to us processing your personal information where we are relying on a legitimate basis lawful basis;

- Gofyn am gyfyngu'r gwaith o brosesu eich gwybodaeth bersonol, er enghraifft pan fyddwn yn gwirio ei gywirdeb neu'n gwirio'r rheswm dros brosesu;
- Gofyn am drosglwyddo eich gwybodaeth bersonol i barti arall (cludadwyedd data);
- Tynnu'ch caniatâd yn ôl (e.e. at ddibenion marchnata) ar unrhyw adeg.

Os hoffech arfer unrhyw un o'ch hawliau uchod, cysylltwch â **support@awen-wales.com**

Os hoffech gyflwyno cwyn ynghylch sut rydym wedi ymdrin â'ch data personol, gallwch gysylltu â'n Swyddog Diogelu Data a fydd yn ymchwilio i'r mater.

Os nad ydych yn fodlon â'n hymateb neu'n credu nad ydym yn prosesu eich data personol yn unol â'r gyfraith, gallwch gwyno i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO).

Ein Swyddog Diogelu Data yw Helen Sage a gallwch gysylltu â hi yn

Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen
Tŷ Bryngarw, Parc Gwledig Bryngarw, Brynmenyn, CF32 8UU

## Diogelwch Data

**Rydym wedi rhoi mesurau diogelwch priodol ar waith i atal eich data personol rhag mynd ar goll yn ddamweiniol, cael ei ddefnyddio neu ei gyrchu'n mewn ffordd anawdurdodedig, ei newid neu ei ddatgelu.**

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod eich gwybodaeth bersonol yn ddiogel. Er mwyn atal mynediad neu ddatgeliad anawdurdodedig, rydym wedi rhoi gweithdrefnau ffisegol, electronig a rheolaethol ar waith i ddiogelu a sicrhau'r wybodaeth a gasglwn ar-lein rhag colled, camddefnyddio neu newid.

- Request the restriction of processing your personal information, for example whilst we are checking the accuracy of it or the reason for processing;
- Request the transfer of your personal information to another party (data portability);
- Withdraw your consent (e.g. for marketing purposes) at any time.

If you would like to exercise any of your rights above, please contact **support@awen-wales.com**

If you would like to make a complaint about how we have handled your personal data, you can contact our Data Protection Responsible Person who will investigate the matter.

If you are not satisfied with our response or believe that we do not process your personal data in accordance with the law you can complain to the Information Commissioner's Office (ICO).

Our Data Protection Responsible Person is Helen Sage and you can contact her at:

Awen Cultural Trust
Bryngarw House, Bryngarw Country Park, Bridgend, CF32 8UU

## Data Security

**We have put appropriate security measures in place to prevent your personal data from being accidentally lost, used or accessed in an unauthorised way, altered or disclosed.**

We are committed to ensuring your personal information is safe. To prevent access or unauthorised disclosure, we have put in place physical, electronic and managerial procedures to safeguard and secure the information we collect online against loss, misuse or change.

Mae enghreifftiau o'n mesurau diogelwch yn cynnwys y canlynol:

- Dim ond personél awdurdodedig sy'n cael cyrchu gwybodaeth am ddefnyddwyr ac rydym yn defnyddio technoleg diogelwch safonol y diwydiant (megis TLS / SSL, ond heb fod yn gyfyngedig iddi) i amgryptio gwybodaeth ariannol a phersonol rydych chi'n ei rhoi cyn iddi gael ei hanfon atom dros y rhyngrwyd;
- Bydd trydydd partïon dim ond yn prosesu eich data gyda'n cytundeb ni ac yn unol â chontractau;
- Systemau a gwybodaeth y mae'r mynediad atynt wedi'i reoli trwy lefelau a phrosesau awdurdodedig;
- Pan fo angen, byddwch yn cael cyfrinair sy'n caniatáu mynediad i systemau penodol sy'n dal data personol, eich cyfrifoldeb chi yw cadw'r cyfrinair hwn yn ddiogel drwy beidio â'i rannu ag unrhyw un;
- Rydym yn hyfforddi ein staff i fod yn ymwybodol o sut i drin gwybodaeth a beth i'w wneud pan fydd pethau'n mynd o chwith;
- Cedwir gwybodaeth cyhyd ag y bydd ei hangen arnom yn unig, oni bai bod angen ei chadw at ddibenion cyfreithiol neu i sicrhau na fyddwn yn cysylltu â chi os ydych wedi gofyn i ni beidio â gwneud hynny;
- Cedwir gwybodaeth bersonol cwsmeriaid cyhyd ag y bydd angen i ni ddarparu nwyddau, gwasanaethau neu wybodaeth i chi;
- Mae gwybodaeth bersonol / sensitif mewn cysylltiad ag ymgeiswyr yn cael ei chadw am gyfnod o 6 mis;
- Bydd yr holl ddata naill ai'n cael ei ddileu neu ei glirio;
- Delweddau CCTV – Bydd recordiadau digidol arferol yn cael eu cadw am gyfnod o 31 diwrnod ar yriant caled neu ddisg ac yna fe'u trosysgrifir;
- Ac eithrio at ddibenion tystiolaethol, ni fydd delweddau'n cael eu copïo. Mae'r holl ddeunydd a recordiwyd a ddarperir fel tystiolaeth yn cael ei drin yn unol â'r gweithdrefnau a ddiffinnir o dan Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol (PACE) a'r Weithdrefn hon i sicrhau parhad tystiolaeth ac archwilio llwybr clir.

Examples of our safety include:

- Only authorised personnel can access information about consumers and we use industry standard security technology (such as TLS / SSL, but not limited to it) to encrypt financial and personal information that you input before it be sent to us over the internet;
- Third parties will only process your data on our agreement and in line with contracts;
- Access controlled systems and information through authorised levels and processes;
- Where necessary, you will receive a password that allows access to specific systems that hold personal data it is your responsibility to keep this password safe and not to share it with anyone;
- We train our staff to make them aware of how to handle information and what to do when things go wrong;
- Information is kept for as long as we need it only, unless it needs to be retained for legal purposes or to make sure we will not contact you if you have asked us not to do that;
- Customer personal information is kept for as long as we need to provide goods, services or information for you;
- Personal / sensitive information is held in connection with job applicants for a period of 6 months;
- All data will either be erased or cleared;
- CCTV Images – Normal digital recordings will be kept for a period of 31 days on a drive hard or disk and then they will be overwritten;
- Except for evidential purposes images will not be copied. All recorded material a provided as evidence is treated in accordance with the procedures defined under the Police Act a Criminal Evidence (PACE) and this Procedure to ensure continuity of evidence and route clear exploration.

Os ydych chi'n prynu eich tocynnau trwy Spektrix ar-lein, mae ein tudalennau archebu wedi'u hamgryptio i safon uchel sy'n golygu bod eich gwybodaeth yn ddiogel ac wedi'i diogelu rhag colled neu gamddefnydd.

Mae ein System Rheoli Llyfrgell SirsiDynix hefyd yn defnyddio technegau amgryptio ac atal ymyrraeth modern.

Rydym wedi sefydlu gweithdrefnau i ymdrin ag unrhyw achos o dor diogelwch data personol a amheuir a byddwn yn eich hysbysu chi ac unrhyw reoleiddiwr perthnasol am dor diogelwch pan fo'n ofynnol yn gyfreithiol i ni wneud hynny.

## Newidiadau i'n Polisi Preifatrwydd

Bydd unrhyw newidiadau a wnawn i'n polisi preifatrwydd yn y dyfodol yn cael eu postio ar y dudalen hon a, phan fo'n briodol, fe'ch hysbysir drwy e-bost.

## Cysylltu â ni

Dylid anfon unrhyw gwestiynau sy'n ymwneud â'r polisi hwn a'n harferion preifatrwydd i **support@awen-wales.com**

If you are purchasing your tickets through Spektrix online, our booking pages are encrypted to a high standard meaning that your information is secure and protected against loss or misuse.

Our SirsiDynix Library Management System also uses modern encryption and intrusion prevention techniques.

We have put in place procedures to deal with any suspected personal data breach and will notify you and any applicable regulator of a breach where we are legally required to do so.

## Changes to our Privacy Policy

Any future changes we make to our privacy policy will be posted on this page and, where appropriate, notified to you by email.

## Contact us

Any questions relating to this policy and our privacy practices should be sent to **support@awen-wales.com**



Rhif elusen gofrestredig / Registered charity number: 1166908
Rhif cofrestru TAW / VAT registration number: 224 3341 44
Rhif gofrestredig / Company number: 9610991

Mae Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen wedi'i chofrestru yng Nghymru fel cwmni cyfyngedig drwy warant.
Awen Ciltural Trust is registered in Wales as a company limited by guarantee.